

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 5)

### Y BIL MENTER: PRENTISIAETHAU – RHANNU GWYBODAETH

1. Gosodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn pennu bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os bydd un o Filiau Seneddol y Deyrnas Unedig yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â Chymru at ddiben sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu sy'n ei addasu.
2. Cyflwynwyd y Bil Menter (y "Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 16 Medi 2015. Gellir gweld y Bil ar:

<http://services.parliament.uk/bills/2015-16/enterprise.html>

Y fersiwn gyfredol o'r bil yw'r Bil a drosglwyddwyd o Dŷ'r Arglwyddi i Dŷ'r Cyffredin (HC Bill 112), ac i'r fersiwn hon o'r Bil mae'r cyfeiriadau isod i rifau Rhannau a chymalau.

### Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

3. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau ("BIS"). Y prif amcanion polisi a ddatganwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw:
  - Cadarnhau safle'r DU fel y lle gorau yn Ewrop i gychwyn a thyfu busnes, drwy leihau biwrocratiaeth a'i gwneud yn haws i fusnesau bach ddatrys anghydfodau yn gyflym a hwylus; a
  - Gwobrwyo entrepreneuriaeth, creu swyddi a chyflogau uwch i bawb a chynnig cyfle i bobl yn ystod pob cyfnod o'u hoes.
4. Mae naw rhan i'r Bil:
  - mae Rhan 1 yn gwneud darpariaeth i sefydlu Comisiynydd Busnesau Bach;
  - mae Rhan 2 yn darparu ar gyfer estyn y Targed Effaith Busnes drwy gynnwys rheoleiddwyr ynddo, ac yn cynorthwyo newid yn y modd y cyflawnir rheoleiddio gan reoleiddwyr drwy'r Ddyletswydd Twf a'r Cod Rheoleiddwyr;
  - mae Rhan 3 yn darparu ar gyfer symleiddio'r Cynllun Awdurdodau Sylfaenol;

- mae Rhan 4 yn gwneud darpariaethau sy'n cyflwyno targed ar gyfer cyfanswm nifer y prentisiaid sy'n gweithio mewn cyrff sector cyhoeddus ac yn rhwystro camddefnyddio'r term 'Prentisiaeth';
- mae Rhan 5 yn gwneud darpariaethau sy'n cyflwyno rhwymedigaeth gyfreithiol i dalu hawliadau yswiriant o fewn cyfnod rhesymol;
- mae Rhan 6 yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng Asiantaeth y Swyddfa Brisió ("y VOA") a llywodraeth leol, am drethdalwyr ardrethi annomestig a'u heiddo, ac ar gyfer diwygio'r system apelau ardrethi annomestig;
- mae Rhan 7 yn gwneud darpariaethau sy'n diweddarau Deddf Datblygu Diwydiannol 1982;
- mae Rhan 8 yn gwneud darpariaethau ar gyfer capio taliadau ymadael i weithwyr yn y sector cyhoeddus; ac
- mae Rhan 9 yn gwneud darpariaethau cyffredinol ynglŷn â diwygiadau canlyniadol a throsiannol a darpariaethau arbed a chychwyn.

### **Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer**

- 5.1 Ceisir cydsyniad ar gyfer agweddau ar y diwygiad (NC3) i'r Bil Menter a gyflwynwyd gan y Gwir Anrh. Anna Soubry AS, y Gweinidog Busnesau Bach, Diwydiant a Menter, ar 2 Chwefror, ac a gyhoeddwyd ar 3 Chwefror.
- 5.2 Byddai'r diwygiad hwn yn mewnosod Rhan 1A newydd i Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (ASCLA 2009). Mae'r Rhan 1A newydd (adrannau 40A i 40D) yn creu pwerau rhannu data rhwng Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC), yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yng nghyd-destun swyddogaethau prentisiaethau.
- 5.3 Mae'r adran 40A newydd o ASCLA 2009 yn rhoi swyddogaeth i HMRC sy'n caniatáu iddi rannu gwybodaeth â'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae adran newydd 40B yn gwneud darpariaeth gyfatebol ar gyfer rhannu data rhwng HMRC ac awdurdodau yng Nghymru, awdurdodau yn yr Alban ac awdurdodau yng Ngogledd Iwerddon.
- 5.4 Fel y mae'n gymwys i Gymru, mae adran newydd 40B(1) yn caniatáu i HMRC ddatgelu gwybodaeth i awdurdodau yng Nghymru at ddiben swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â phrentisiaethau yng Nghymru. Mae adran 40B(2) yn caniatáu i awdurdodau yng Nghymru ddatgelu gwybodaeth i HMRC at ddiben gofyn i HMRC ddatgelu gwybodaeth iddynt, neu at unrhyw ddiben arall sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â phrentisiaethau yng Nghymru.

- 5.5 Mae adran 40B(3) yn diffinio “Welsh authority” a “Welsh apprenticeships” at ddiben adran 40B. Awdurdodau yng Nghymru yw Gweinidogion Cymru, personau sy’n darparu gwasanaethau i Weinidogion Cymru, ac unrhyw gorff neu unrhyw berson arall a ragnodir mewn rheoliadau a wnaethpwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Diffinnir prentisiaethau yng Nghymru trwy gyfeirio at ddarpariaethau statudol sy’n bodoli eisoes mewn perthynas â phrentisiaethau yng Nghymru. Byddai rheoliadau a gâi eu gwneud o dan adran 40B yn rhagnodi awdurdodau yng Nghymru neu’n diwygio diffiniad prentisiaethau yng Nghymru at ddiben y darpariaethau rhannu data yn y Rhan 1A newydd o ASCLA 2009 yn unig. Ceir diwygio’r diffiniad hwn gan reoliadau a wnaethpwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.
- 5.6 Mae’r adran newydd 40C yn gwneud darpariaeth ar gyfer datgelu ar gam unrhyw wybodaeth a geir oddi wrth HMRC. Ni chaiff y sawl sy’n derbyn gwybodaeth ei datgelu i berson arall heb gydsyniad Comisiynwyr HMRC. Bydd y darpariaethau yn adran 19 o Ddeddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005 (datgelu ar gam) yn gymwys i unrhyw ddatgeliad a wneir heb gydsyniad os yw’r wybodaeth yn ymwneud â pherson y mae ei hunaniaeth wedi’i nodi yn y datgeliad neu y gellir ei dyfalu ohono.
- 5.7 Mae adran newydd 40D yn nodi darpariaethau dehongli ar gyfer Rhan 1A.
- 5.8 Barn Llywodraeth Cymru yw bod y darpariaethau yn niwygiad NC3 sy’n creu pwerau i awdurdodau yng Nghymru ddatgelu gwybodaeth i HMRC ac sy’n creu pwerau i wneud rheoliadau mewn perthynas â’r fath ddatgeliadau yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i’r graddau y maent yn ymwneud ag “Economic development and regeneration, including social development of communities, reclamation of derelict land and improvement of the environment” (paragraff 4 o Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) ac “Education and training” (paragraff 5 o Atodlen 7). Mae’r darpariaethau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

### **A yw’n briodol i’r darpariaethau perthnasol gael eu gwneud, ac a ddylid eu gwneud drwy gyfrwng y Bil hwn**

- 6.1 Diben y diwygiad yw darparu ar gyfer pyrth rhannu data at ddiben prentisiaethau rhwng Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a’r Ysgrifennydd Gwladol a rhwng Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a’r gweinyddiaethau datganoledig. Mae’r pyrth rhannu data yn cael eu cyflwyno yng ngoleuni bwriad Llywodraeth y DU i ddwyn ymlaen ddarpariaethau yn ei Bil Cyllid i greu Ardoll Prentisiaethau ar gyflogwyr.
- 6.2 Er bod gan Lywodraeth Cymru bryderon ynghylch yr Ardoll Prentisiaethau mae’r cynnig i ganiatáu ar gyfer rhannu data mewn perthynas â phrentisiaethau’n gadarnhaol, a bydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddeall yn well effaith yr ardoll ar gyflogwyr yng Nghymru.
- 6.3 Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol i’r ddarpariaeth hon gael ei gwneud. Bydd y pwerau yn caniatáu i Weinidogion Cymru ac awdurdodau eraill yng Nghymru, os y’i rhagnodir, rannu data, ond ni fydd dyletswydd

arnynt i rannu gwybodaeth, ac felly byddant yn gallu ystyried y mathau o wybodaeth y dylid eu rhannu, a sut y dylid eu rhannu.

- 6.4 Mae'n briodol i'r ddarpariaeth gael ei gwneud yn y Bil hwn, oherwydd ei bod yn ymwneud â sefydlu system ganiataol rhannu data ledled y Deyrnas Unedig mewn perthynas â phrentisiaethau, ac nid yw rhannau o'r system honno o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae'r ddarpariaeth yn gymwys ledled yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru (yn ogystal â Lloegr) ac felly mae gwneud y ddarpariaeth ledled y Deyrnas Unedig mewn un Bil y DU yn galluogi'r darpariaethau i ddod i rym ledled y Deyrnas Unedig ar yr un pryd gan ganiatáu ymagwedd gydlynol a chyson.

### **Goblygiadau ariannol**

- 7.1 Gan ddibynnu ar y dull mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) yn ei fabwysiadu i ddarparu data mae'n bosibl y bydd cost i Weinidogion Cymru ac awdurdodau yng Nghymru mewn perthynas â throsglwyddo data. Nid yw'r costau tebygol wedi cael eu meintoli ond maent yn gyfyngedig i gostau gweinyddol yn unig.

**Julie James, AC**  
**Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg**  
**Chwefror 2016**